Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Gofal Mes y Dderwen**

**Ysgol Y Dderwen**
**Heol Spurrell**
**Carmarthen**
**SA31 1TG**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âClwb Gofal Mes y Dderwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Ddydd Plant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Person Cofrestredig | Dylan Evans |
| Lleoedd cofrestredig | 80 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 Mehefin 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws ac ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi ystyried y themâu lles, gofal a datblygiad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae plant yn cyfathrebu yn hyderus ac yn cael cyfleodd da i wneud dewisiadau a mynegi syniadau. Maent wedi ymgartrefu a mae ganddynt gyfleoedd da iawn i ddatblygu sgiliau a mwynhau eu chwarae.

Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu arferion hylendid da ac yn cwblhau hyfforddiant yn rheolaidd. Mae staff wedi adeiladu perthnasau agos gyda phlant y gwasanaeth ac mae ganddynt ddealltwriaeth da o ofynion y plant yn eu gofal.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn darparu gofal o safon ac yn cwrdd â gofynion rheoliadol yn ogystal â gofynion Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn llawn. Mae ganddynt bartneriaeth gweithio agos gyda'r ysgol a wedi adeiladu perthnasau da gyda'r teuluoedd.

## Llesiant

Mae plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, penderfyniadau a mynegi barn. Maent yn cyfathrebu yn hyderus gyda staff a’u cyfoedion, a mae eu dymuniadau, eu hwyliau a'u anghenion yn cael eu hystyried. Mae safbwyntiau a diddordebau plant yn cael eu gwerthfawrogi. Mae llais y plentyn yn gryf ac maent wedi datblygu bwrdd syniadau lle mae plant yn cael y cyfle i ysgrifennu eu syniadau ar ddail. Er enghraifft, syniadau fel gwneud ‘smoothies’, cwis, gymnasteg, bingo a yoga. Gwelsom plant yn symud o un bwrdd i’r nesaf wrth iddynt ddewis ystod o weithgareddau. Maent yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae plant yn hapus a chartrefol iawn. Mae tystiolaeth cryf eu bod wedi ffurfio perthnasau da iawn gyda staff a’u cyfoedion. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol.

Mae plant yn rhyngweithio yn agored ac yn hyderus gyda’i gilydd. Maent yn cydweithio a chymdeithasu mewn modd hapus a chynnes. Gwelsom blant yn gyffrous wrth drafod eu profiadau yn cymryd rhan mewn cyngherddau’r ysgol a siarad am y Nadolig. Mae’r rhyngweithio rhwng y plant a staff yn dangos bod perthnasau agos a chryf rhyngddynt. Gwelsom blant yn chwerthin a sgwrsio’n hapus wrth iddynt gyfathrebu a chydweithio mewn modd gyfforddus a chartrefol. Mae plant yn hyderus a pharchus wrth symud yn rhydd o amgylch y safle yn siarad â staff gofal, eu cyfoedion ac ymwelwyr. Er enghraifft, ni wnaeth presenoldeb ymwelwyr amharu ar y plant ac wrth bwyso wrth y cotiau, clywsom blant yn gofyn, *“Esgusodwch fi, ga i fynd at fy mag os gwelwch yn dda?”*

Mae rhan fwyaf o blant yn egnïol a chwilfrydig ac yn dangos diddordeb pan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel lliwio, blociau adeiladu a gwaith crefft. Maent yn annibynnol ac yn cael y dewis yn ogystal a’r rhyddid i symud o amgylch, gadael un weithgaredd a symud ymlaen i’r nesaf.  Er enghraifft, gwelsom blant yn dewis i fynd allan i chwarae a rhai yn dewis gweithgareddau tu fewn.

Mae’r iaith Gymraeg yn nodwedd gref ac amlwg a chlywyd y plant i gyd yn cymdeithasu, mynegi barn, trafod, dweud jôcs, chwarae yn gyffredinol, a datrys yn y Gymraeg. Wrth chwarae, mae plant yn cymryd tro, gwrando ar ei gilydd a maent yn ystyried syniadau eraill. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn gwrando ac ymateb, cydnabod syniadau, a chytuno wrth iddynt gynllunio ac adeiladau gyda blociau.

## Gofal a Datblygiad

Mae staff yn gymwys a phrofiadol ac yn deall eu cyfrifoldebau o rhan polisïau yn glir. Maent yn deall gweithdrefnau'r clwb ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Fe welwyd staff yn atgoffa plant i olchi eu dwylo wrth iddynt gyrraedd y clwb. Gwelsom hefyd bod staff wedi paratoi byrbryd o safon a oedd yn cynnig dewis amrywiol o fwydydd iach i blant wrth iddynt gyrraedd y clwb. Mae staff yn rheoli risgiau ac yn cadw cymarebau staff i blant yn gywir.

Mae staff yn cyfathrebu'n gynnes ac agored gyda'r plant. Maent yn trafod syniadau'r plant wrth gytuno a'r weithgareddau ar gyfer y byrddau, neu trefnu gweithgareddau tu allan. Maent yn ymateb yn gyson ac yn rhyngweithio yn dda rhwng ei gilydd a gyda'r plant trwy ddangos diddordeb, cefnogaeth a charedigrwydd. Mae gan y staff ddealltwriaeth da iawn o weithdrefnau dyddiol, ac o ganlyniad yn gallu cynnig cysondeb gyda'u gofal. Er enghraifft, clywsom staff yn canmol y plant am gymryd rhan yn ystod cyngerdd Nadolig y bore, a staff yn cefnogi plant i wisgo yn barod ar gyfer cyngerdd Nadolig yr hwyr yn dweud, *"Roeddech yn arbennig bore ma – da iawn. Pwy sy'n dod i'ch gweld chi heno?"*

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Ond mae'r safle ar gyfer y clwb gofal yn eang ac yn cynnig amgylchedd sydd yn lân, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r ardaloedd mewnol ac allanol sydd ar gael i'r plant yn cynnig diogelwch, lle mae plant yn cael y rhyddid i symud o gwmpas yn annibynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth weledigaeth glir sydd yn adlewyrchu diwylliant a gwerthoedd y gwasanaeth. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau gofal o safon uchel ac yn cynnig esiamplau clir o arfer dda wrth iddynt gwrdd a gofynion rheoliadol yn ogystal a gofynion Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn cadw trefn effeithiol ar yr holl ddogfennaeth a chofnodion. Er enghraifft, gwelwyd Cynllun Gweithredu'r flwyddyn yn rhestru nodau ac amcanion clir ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau arweinwyr a staff. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn deall eu cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn sicrhau bod dogfennaeth y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn gwerthuso'r gofal yn briodol ac yn gwneud gwelliannau o'r broses. Gwelsom tystiolaeth manwl o ddogfennaeth holiaduron i staff, rhieni a phlant. O ganlyniad, mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth wedi paratoi adroddiad cynhwysfawr wrth ystyried y gwybodaeth cyfan. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymatebion, syniadau ar gyfer gwella a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae tystiolaeth clir bod y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n barhaol i sicrhau lleoliad sydd yn rhedeg yn effeithiol. Maent yn cydweithio'n hawddgar a hyblyg gyda'r staff i sicrhau bod cymarebau staff i blant yn gywir. Dywedodd staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y clwb a chafwyd trafodaethau gyda llawer o staff a oedd yn frwdfrydig am eu gwaith a'u cyfrifoldebau. Gwnaethom wirio sampl o gofnodion yn cynnwys system newydd ac effeithiol o oruchwylio staff. Gwelsom hefyd rota yn dangos cyfrifoldebau staff o rhan oedran a gweithgaredd, gyda rhifau bob dydd yn nodi'r nifer o staff sydd yn gweithio ar draws bob sesiwn.

Mae tystiolaeth da iawn bod yna berthynas gweithio agos rhwng y gwasanaeth a'r ysgol. Gwelsom rhieni yn casglu eu plant ar ddiwrnod yr ymweliad, lle roedd tystiolaeth clir o berthnasau agored, cynnes ac agos rhwng arweinwyr, y staff a'r teuluoedd.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

Nid oes unrhyw argymhellion.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/03/2023